Ffair Grefftau ac Anrhegion y Gaeaf

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

21 Hydref - 23 Rhagfyr 2011
a 3 Ionawr - 8 Ionawr 2012

Annwyl Gyfeillion

Mae'n bleser gennyf amgau ffurflen gais ar gyfer Ffair Grefftau ac Anrhegion y Gaeaf a gynhelir eto eleni yng Nghanolfan y Celfyddydau. I'r sawl ohonoch sy'n ymwelwyr rheolaidd, gobeithiwn y gallwch ymuno â ni eto, ac os 'rydym yn cysylltu â chi am y tro cyntaf, gobeithiwn y byddwch yn awyddus i fanteisio ar y cyfle gwych hwn i hyrwyddo'ch gwaith.

- Dros 80 o stondinau
- Dros 150,000 o ymwelwyr
- 'Rydym ni'n gwerthu'ch gwaith - y cyfan sydd angen i chwi wneud yw ail-stocio
- Ar agor 7 dydd yr wythnos
- Ar agor yn hwyr Nos Lun tan Nos Sadwrn
- Amgylchedd bywiog a phrysur gyda chaffi, barrau, siop grefft a dylunio a siop lyfrau
- Ffordd wych i gyrraedd cwsmeriaid newydd a gwerthu'ch nwyddau y Nadolig hwn

Oherwydd y galw uchel am stondinau, ac er mwyn rheoli amrediad ac ansawdd y gwaith crefft a werthir yn y ffair, bydd pob cais yn mynd trwy broses dethol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 6 Awst 2011.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni - ffoniwch Andy ar 01970 622895 neu e-bostiwch app@aber.ac.uk.

Andy Pye
Trefnydd Ffair Grefftau ac Anrhegion y Gaeaf

Ffair Grefftau ac Anrhegion y Gaeaf

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

21 Hydref - 23 Rhagfyr 2011
a 3 Ionawr - 8 Ionawr 2012

Enw'r Busnes

Enw'r person i gysylltu ag ef/hi

Cyfeiriad

Côd post

Ffôn a Symudol /

E-bost

Enw'r cyfrif y dylid talu i fewn iddo

Nwyddau sydd ar werth

Eitem	Amrediad Pris

Math o Stondin
gweler y cyfarwyddyd

Math 1 ☐
Math 2 ☐
Math 3 ☐

Os Math 2, dynodwch y nifer o bob math o ffitiad sydd ei angen

Bachau ar gyfer lluniau ____
Pigau (bachau ewro) ____
Rheiliau (ar gyfer dillad) ____
Silffoedd gwydr ____
Biniau bach ____

A fuoch yn cymryd rhan yn Ffair Grefftau 2010?

Do Naddo

Opsiynau Talu
anfonwch y taliad gyda'r cais os gwelwch yn dda

Stondin yn unig £35 (gan gynnwys TAW) ☐

Stondin ac Yswiriant £80 (gan gynnwys TAW) ☐

Yn ogystal, codir tâl gwasanaeth o 32% (+TAW) o'r pris adwerthu gan Ganolfan y Celfyddydau ar nwyddau a werthir.

Amgaeir Siec
unai am £35 neu £80 yn daladwy i 'Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth'
Dychwelir eich siec os nad yw eich cais yn llwyddiannus

£ .00

Gwybodaeth bwysig am y proses dethol
Nodwch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am eich nwyddau efo'r cais hwn. MAE'R SAWL A DDEWISIR I GYMRYD RHAN YN Y FFAIR YN SEILIEDIG AR Y WYBODAETH A DDERBYNNIR GENNYCH CHWI. OS NA FUOCH YN CYMRYD RHAN YN Y FFAIR Y LLYNEDD, NEU OS YW EICH CYNNYRCH WEDI NEWID YN SYLWEDDOL, ANFONWCH SAMPLAU OS GWELWCH YN DDA. Dylid paratoi'r samplau fel eu bod yn barod i gael eu gwerthu - gan gynnwys y pacio a/neu'r labelu lle bo'n addas. Dewisir y rhai sydd i gymryd rhan ym mis Awst a gellir casglu'r samplau o'r Ganolfan o ddydd 5 Medi 2011. Fe'ch hysbysir o'r canlyniad trwy'r post ddechrau mis Medi.

Gwybodaeth bwysig am y stondinau
Rhaid i bob stondinwr ddefnyddio'r unedau arddangos a ddarperir gan y Ganolfan. Mae hyn am resymau iechyd a diogelwch ac hefyd yn unol â thermau trwydded adloniant y Ganolfan. Mae hyn yn golygu hefyd na ellir arddangos gwaith yn y rhodfeydd rhwng y stondinau.

Gwybodaeth bwysig am yr yswiriant opsiynol
Mae'r gwasanaeth opsinol hwn yn yswirio'ch stoc yn erbyn colleddneu niwed yn ystod y Ffair. Mae hwn yn daliad opsiynol sy'n gymwys am y cyfnod 20 Hydref 2011 tan 2pm 9 Ionawr 2012. EIthriadau:

i. Ni fydd gemwaith yn cael ei yswirio onibai bod y gwaith mewn blwch gyda chlo.
ii. Uchafswm yr yswiriant ar gyfer eitem unigol yw £250

Mae gan Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth yr hawl i wrthod unrhyw gais am yswiriant yn erbyn colledion.

Math o Stondin
Pan 'rydych yn gwneud eich cais, dynodwch pa fath o uned arddangos yr hoffech gael.

Math 1
Modiwl hirgrwn gyda goleuo (3 golau x 50w 12v) a 6 silff. Gellir addasu'r silffoedd neu gael gwared ohonynt yn gyfangwbl. Cyfanswm y gofod arddangos gyda 5 silff = 1.33m² - gweler y dudalen nesaf. Gellir gosod bachau.

Math 2
Panel ar y wal. 1m o led a 2. 2.1m o uchder gyda goleuo (3 golau x 50w 12v). Yn addas ar gyfer gwaith sy'n cynnwys yn bennaf gwaith wedi'i fframio, drychau, clociau, cardiau, tecstiliau, eitemau y gellir eu hongian. Dim yn addas ar gyfer biniau print.

Math 3
Blwch gemwaith tal gyda 5 silff.

Termau ac Amodau

1. Cynhelir y Ffair o 21 Hydref 2011 hyd 23 Rhagfyr 2011 ac o 3 Ionawr 2012 hyd 8 Ionawr 2012. Ni fydd mynediad i'r Ffair o 5pm 23 Rhagfyr hyd 10am 3 Ionawr 2012.
2. Rhaid gosod y stondinau i fyny ar 20 Hydref 2011 rhwng 9am a 5pm. Ni cheir mynediad i'r Ffair ar gyfer stondinwyr ar ôl 5pm. Os na osodir y stondin i fyny yn ystod yr amser hwn ni fydd y lle ar gael ac ni ellir talu'n ôl y tâl am y stondin.
3. Rhoddir prisiau adwerthu ar yr holl stoc.
4. Y stondinau i gael eu hail-stocio trwy gydol y Ffair Grefftau yn ôl yr angen. Bydd y Ganolfan yn derbyn ac yn arddangos nwyddau a anfonir trwy'r post neu gludwr a gellir gadael stoc ychwanegol yn y Ganolfan. Os nad yw ail-stocio yn digwydd, defnyddir y gofod i storio nwyddau eraill.
5. Rhaid ail-stocio rhwng 9am a 10am ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener a rhwng 5pm a 7pm ar ddydd Mawrth a dydd Iau. NI CHANIATEIR AIL-STOCIO Y TU ALLAN I'R AMSEROEDD HYN.
6. Rhaid i'r holl stoc (ar ddechrau'r Ffair ac wrth ail-stocio) gael ei restru ar nodiadau trosglwyddo a ddarperir gan y Ganolfan a rhaid i aelod o staff y Ganolfan arwyddo amdano. Ni fydd y Ganolfan yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am stoc sydd wedi ei dderbyn heb arwyddo'r daflen briodol. Bydd y Ganolfan yn postio derbynebau ar gyfer stoc a dderbynnir gan gludwr neu drwy'r post.
7. Mae'r Ffair yn defnyddio system côd bar ar gyfer labelu a gwerthu stoc. Bydd y Ganolfan yn darparu'r labeli priodol a rhaid i'r holl stondinwyr ddefnyddio'r system hwn. Ni ellir gwerthu unrhyw stoc a osodir ar eich stondin nad yw'n arddangos label gyda'r côd bar wedi ei argraffu arno.
8. Y stondinwyr i symud y stoc sy'n weddill ar ddydd Llun 9 Ionawr 2012 rhwng 9 a 2pm - NI DDYLID SYMUD UNRHYW STOC CYN YR AMSER HWN. RHAID i'r holl stoc gael ei arwyddo allan gan aelod o staff y Ganolfan.
9. Codir comisiwn o 32% (+ TAW) o'r pris adwerthu ar bob eitem a werthir. Noder bod y comisiwn yn cynrychioli cost y gwasanaeth a ddarperir gan y Ffair. Bydd y Ganolfan yn darparu infois TAW yn dangos y gost hon a gellir ail-hawlio'r TAW yn y modd arferol os ydych yn gofrestredig ar gyfer TAW. Gwneir y taliadau tair gwaith: Rhagfyr 2011, Ionawr 2012 a Chwefror 2012. Anfonir y taliadau tua'r 22ain o'r mis.
10. Bydd y Ganolfan yn darparu manylion o'r holl werthiannau, y comisiwn a godwyd ac infois TAW ym mis Ionawr 2012.
11. Nid yw'r Ganolfan yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw eiddo a adewir yn yr adeilad ar ôl 2pm ar 9 Ionawr 2012.

Wrth wneud y cais hwn mae'r ymgeisydd yn cytuno i warantu Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth rhag unrhyw atebolrwydd, cost, hawliad, cais neu niwed a achosir trwy werthu nwyddau ar ran yr ymgeisydd gan Brifysgol Aberystwyth a / neu Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ystod y Ffair Gaeaf.

_____
Llofnod

_____
Enw mewn llythrennau bras

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 06/08/11

Dychwelwch y ffurflen hon ynghyd â samplau/ffotograffau at:

Ffair Grefftau ac Anrhegion y Gaeaf 2011
RHADBOST
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Aberystwyth
SY23 1BR

Unrhyw ymholiadau i: 01970 622895 / app@aber.ac.uk



Stondin unigol: